DATGANIAD I'R WASG

PRESS RELEASE

**** Please scroll down for English version****

O'R TRADDODIADOL I TIKTOK: YR URDD YN DATGELU TREFNIADAU EISTEDDFOD T 2021

"Cymerwch eich sedd ar y soffa, tawelwch eich ffôn, a rhowch bob chwarae teg i'r cystadleuydd nesa' – mae **Eisteddfod T** yn ei ôl!"

Yn giamstar ar ganu neu ddweud jôc, yn feistr *lip-sync* neu'n hoff o ddynwared enwogion? O'r traddodiadol i TikTok, mae'r Urdd am gynnal gŵyl ddigidol yn ystod hanner tymor y Sulgwyn am yr ail flwyddyn yn olynol, ac mae Eisteddfod T am fod yn "fwy arbrofol, blaengar a chyffrous nac erioed o'r blaen!"

Denwyd 6,000 o blant a phobl ifanc i gystadlu yn Eisteddfod T y llynedd. Ond eleni, mae'r Urdd yn anelu at gynnal Eisteddfod T fwy arloesol fyth drwy gynnwys mwy o gystadlaethau ac elfennau newydd er mwyn cynnig profiadau unigryw i holl blant a phobl ifanc Cymru, eu hathrawon a'u teuluoedd. O wrando ar gigs o'r gegin, dysgu sut i goginio bwyd stryd a gwylio perfformiadau gwreiddiol gan rai o berfformwyr ifanc mwyaf blaenllaw'r sîn – bydd rhywbeth i bawb yn Eisteddfod T.

Mae Rhestr Testunau 2021 a chyfarwyddiadau ar sut i gystadlu bellach ar gael yma, a chofrestru i gystadlu yn agor ar Fawrth y 1af. Bydd disgwyl i gystadleuwyr gyflwyno gwaith cyfansoddi, fideos o berfformiadau a lluniau o'u gweithiau creadigol o flaen llaw, cyn i'r rowndiau terfynol gael eu darlledu mewn cyfres o raglenni arbennig ar S4C a BBC Radio Cymru dros bum niwrnod, rhwng dydd Llun, 31 Mai a Gwener, 4 Mehefin 2021.

Wrth groesawu'r cyhoeddiad, meddai **Eluned Morgan, Gweinidog Iechyd Meddwl, Llesiant a'r Gymraeg**: "Yn amlwg mae'n siom na all Eisteddfod yr Urdd ddigwydd fel arfer unwaith eto eleni. Ond mae'n rhaid llongyfarch yr Urdd ar fod yn arloesol a threfnu Eisteddfod T arall yn lle'r ŵyl arferol – mae'r mudiad yn sicrhau fod ein plant a phobl ifanc yn parhau i ddathlu ein hiaith a'n diwylliant byw, a hynny er gwaethaf cyfyngiadau Covid-19.

"Bu i Eisteddfod T lwyddo i ddenu nifer o gystadleuwyr newydd llynedd, ac edrychwn ymlaen at weld rhai o'r cystadlaethau newydd a hwyliog hyn yn cael eu hymgorffori o fewn yr Eisteddfod draddodiadol yn y dyfodol."

"Mi ydan ni'n benderfynol o gynnal Eisteddfod T fwy arbrofol, arloesol a chyffrous nac erioed o'r blaen," meddai **Cyfarwyddwr yr Eisteddfod, Siân Eirian**. "Dyma gyfle i feithrin ac arddangos talent o bob math, o gantorion a llenorion i sêr TikTok y dyfodol.

“Yn ogystal â’r cystadlaethau mwy traddodiadol fel llefaru neu’r alaw werin, mae modd i unigolion, grwpiau mewn ‘swigod’ a theuluoedd gymryd rhan mewn cystadlaethau mwy anffurfiol. Mae yna hyd yn oed cystadlaethau i athrawon ac aelodau hŷn o’r Urdd!

“Rydan ni’n gobeithio bydd yr arlwy amrywiol yn plesio ein Heisteddfodwyr arferol, ond yn denu llawer o’r newydd, hefyd. Hoffwn ddiolch i Lywodraeth Cymru am eu cefnogaeth i Eisteddfod T, i’n partneriaid darlledu - S4C a BBC Radio Cymru - am eu parodrwydd i ddarlledu’r ŵyl unwaith eto eleni, ac i gwmni teledu AVANTI am eu creadigrwydd.”

Meddai **Amanda Rees, Cyfarwyddwr Creadigol Cynnwys S4C**: “Does dim amheuaeth fod Eisteddfod T wedi codi calonnau a dod â hwyl i gannoedd o deuluoedd yn ystod cyfnod anodd a thywyll y llynedd. Mae S4C yn falch iawn o gydweithio gydag Urdd Gobaith Cymru eto, gan ddarlledu mwy o oriau eleni yn llinol ac ar draws ein platfformau digidol drwy gydol yr wythnos. Ry’n ni’n edrych ymlaen yn fawr at arddangos talentau plant a phobl ifanc Cymru yn ogystal â mamau a thadau, a neiniau a theidiau! Mae’n bleser bod yn rhan o gyffro Eisteddfod T eto eleni gan ddarlledu holl fwrlwm yr ŵyl yn fyw o gartrefi teuluoedd ledled Cymru.”

Dywed **Rhuanedd Richards, Golygydd BBC Radio Cymru a Cymru Fyw**: “Mae hi mor bwysig fod ein plant a’n pobl ifanc yn parhau i gael llwyfan cenedlaethol er mwyn dangos eu doniau a’u sgiliau ac rydym yn falch iawn o bartneru unwaith eto gyda’r Urdd ac agor y tonfeddi a’n gwasanaethau i gystadleuwyr Eisteddfod T. Edrychwn ymlaen at wledd o leisiau dros wyliau’r Sulgwyn ar Radio Cymru a Radio Cymru 2 fydd yn sicr o ddod â gwefr a mwynhad i’n gwrandawyr. Mae BBC Cymru Fyw hefyd yn falch i fod yn gynnig cartref ar gyfer nifer o’r cystadlaethau a gwybodaeth am yr ŵyl.”

DIWEDD

Nodiadau i’r golygydd:

- O ganlyniad i’r sefyllfa bresennol yng Nghymru a thu hwnt o ran Covid-19, penderfynwyd gohirio Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych tan 2022 – sef blwyddyn canmlwyddiant yr Urdd. Golygai hyn fod Eisteddfod yr Urdd Sir Gaerfyrddin wedi symud i 2023, ac Eisteddfod yr Urdd Maldwyn i 2024.
- Mae cofrestru i gystadlu yn Eisteddfod T yn agor ar 1 Mawrth 2021 ac yn cau ar y 26ain o Fawrth. Cynhelir yr ŵyl ar y tonfeddi rhwng dydd Llun, 31 Mai a Gwener, 4 Mehefin 2021.
- Gellir darllen Rhestr Testunau Eisteddfod T 2021 yma: **s4c.cymru/urdd**

Am ddelweddau cliciwch yma
I wylio’r fideo hyrwyddo cliciwch yma
I drefnu cyfweliad ac am fwy o wybodaeth cysylltwch â: 07976 330361 / ywasg@urdd.org

PRESS RELEASE

TRADITIONAL TO TIKTOK: THE URDD REVEALS ITS PLANS FOR EISTEDDFOD T

"Make yourself comfortable on the sofa, switch your mobiles to silent, and give it up for the next contestant… **Eisteddfod T** is back!"

Singing, lip-syncing and celebrity impersonations – from the traditional to TikTok, Urdd Gobaith Cymru have announced that Eisteddfod T is back for the second year running and the organisers promise a "more experimental, progressive and exciting festival than ever before" to be held during Whitsun half-term.

Last year's Eisteddfod T attracted over 6,000 competitors. However, this year, the Urdd is determined to organise an even more innovative festival by adding more competitions and new elements to offer unique experiences for the children and youngsters of Wales, along with their teachers and family members. From gigs in the kitchen, to learning how to cook street food, and watching some of our best young artists deliver breath-taking performances, there will be something for everyone in Eisteddfod T.

The list of competitions and instructions on how to compete are available here, and registration will be live on the 1st of March. Competitors will compete by uploading videos, clips, and pictures of their performances and creations, and the final rounds will be broadcast on specially scheduled programmes on S4C, online and BBC Radio Cymru during the week commencing 31st of May.

Eluned Morgan, Minister for International Relations and the Welsh Language said: "Postponing the Urdd Eisteddfod once again this year was a disappointment for all involved, but I congratulate the Urdd on organising a pioneering Eisteddfod T instead. The organisation is ensuring that our children and youngsters are continuing to celebrate our vibrant language and culture, despite Covid-19's restrictions.

"Last year's Eisteddfod T attracted many new competitors, and we look forward to seeing some of these new and fun competitions being incorporated into the traditional Eisteddfod in the future."

"We are determined that this year's Eisteddfod T will be a more experimental, progressive and exciting festival than ever before," said **Director of the Urdd Eisteddfod and the Arts, Siân Eirian**. "It is an opportunity to showcase such an array of talent, from singers and writers to future TikTok influencers.

"The more traditional competitions such as reciting and singing have been coupled with more unconventional elements to ensure the enjoyment of individuals, groups in 'bubbles' and families alike. There are even competitions for teachers and older Urdd members!

“We hope the variety will please our usual Eisteddfod-goers but also reaches new audiences as well. I would like to thank the Welsh Government for supporting Eisteddfod T, S4C and BBC for their readiness to broadcast the festival once again this year, and to AVANTI for producing such creative content on behalf of S4C.

Amanda Rees, S4C’s Creative Content Director said: “Without doubt, Eisteddfod T brought fun and excitement to hundreds of households during a difficult time last year. S4C is delighted to work with Urdd Gobaith Cymru once again this year, and broadcast even more hours across all our platforms, throughout the week. We are very much looking forward to showcasing the talents of the children and young people of Wales – along with their mothers, fathers, and grandparents! It is a pleasure to be part of the Eisteddfod T once again and live broadcast the festival into the homes of families from all corners of Wales.”

Rhuanedd Richards, Editor of BBC Radio Cymru and Cymru Fyw said: “It’s vital that our children and young people continue to have the opportunity to showcase their skills and talent on the national stage and we’re delighted to be working with the Urdd once again and opening up the airwaves and our services to welcome Eisteddfod T. We are anticipating a wealth of voices at the end of May on Radio Cymru and Radio Cymru 2 which will inspire and entertain our audiences. BBC Cymru Fyw will also offer a platform for a number of competitions as well as information about the festival.”

ENDS

Notes to editor:

- Due to the current situation in Wales and beyond regarding Covid-19, the Urdd decided to postpone the Denbighshire Urdd Eisteddfod until 2022. Consequently, the Urdd Eisteddfod in Carmarthenshire has moved to 2023, and Urdd Eisteddfod Maldwyn (Montgomeryshire) to 2024.
- Eisteddfod T is a play on words – Ti means ‘you’ and Tŷ means ‘house’.
- Registration for Eisteddfod T will be between the 1st and 26th of March 2021. The festival will be seen and heard on a range of programmes and platforms during the week commencing 31st of May - the exact week the Eisteddfod should have been held.
- A list of this year’s competitions can be seen at **s4c.cymru/urdd**.

For images click here
To view the promo video click here
To arrange interviews and for further information please contact: 07976 330361 / ywasg@urdd.org